**COFNOD A BENDERFYNIADAU GWEITHREDOL**

**Y CABINET - DYDD GWENER, 18 HYDREF 2019**

**BWRDD ADFYWIO A DATBLYGU CYNALIADWY'R CABINET**

**Aelodau Bwrdd y Cabinet:**

Cynghorwyr: L.Jones a/ac P.A.Rees

**Swyddogion sy'n Bresennol:**

N.Pearce, C.Morris, M. Thomas, N.Headon a/ac N. Jones

---

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cytunwyd y dylid penodi'r Cynghorydd L C Jones yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**Penderfyniad:**

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod 6 Medi 2019.

3. **ISAFBRIS UNED AR GYFER ALCOHOL**

**Penderfyniadau:**

Diwygio'r trefniadau dirprwyo mewn perthynas â Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach a nodir yn fersiwn 2.08/16 o gyfansoddiad y cyngor [h.y. Rhan 3 - Swyddog Trefniadau Dirprwyo'r cyngor: {c} Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach - Atodlen 1] i:

a) Ychwanegu rheoliadau swyddogol Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009, Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 a Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Deddf Cyfraith Eiddo 1925 at y rhestr o ddeddfwriaethau [a nodir yn y ddogfen y cyfeirir

ati uchod, Atolden 1] a ddirprwyir i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd a Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd a Safonau Masnach;

b) Dirprwyo'r swyddogion hynny [a] uchod yn yr awdurdod i awdurdodi swyddogion unigol, cymwys a chymwysedig i weithredu o dan y ddeddfwriaeth honno;

c) Dirprwyo'r swyddogion hynny [a] uchod yn yr awdurdod i gychwyn achos cyfreithiol dan y ddarpariaethau a gynhwysir yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009, Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 a Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006 a Deddf Cyfraith Eiddo 1925 yn unol â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol [gan gynnwys llofnodi unrhyw rybuddion yn unol â chanllawiau'r Swyddfa Gartref] a, lle bo troseddwr honedig yn cael ei gadw yn y ddalfa mewn perthynas â throsedd, i gychwyn achos drwy ddwyn cyhuddiad yn ei erbyn;

d) Bod Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol yn cael ei awdurdodi i geisio diwygio cyfansoddiad y cyngor maes o lawr er mwyn adlewyrchu'r newidiadau uchod i drefniadau dirprwyo'r awdurdod.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Sicrhau bod y cyfansoddiad yn adlewyrchu rhoi'r darn ychwanegol hon o'r ddeddfwriaeth ar waith.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

4. **CYNLLUN DATBLYGU LLEOL CASTELL-NEDD PORT TALBOT (CDLL) - YSTYRIED Y CANLYNOL: Y CANFYDDIADAU, Y CASGLIADAU A'R ARGYMHELLION O DRYDYDD ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL (AMB) Y CDLL**

**Penderfyniad:**

Dylid nodi'r adroddiad.

5. **YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU: FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL 2020-2040 - YMGYNGHORIAD DRAFFT**

**Penderfyniad:**

Cytuno ar yr ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar fersiwn ddrafft y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (NDF) 2020-2040 a nodwyd yn Atodiad 3 yr adroddiad a gylchredwyd a rhoi caniatâd i gyflwyno ymateb i Lywodraeth Cymru.

**Rheswm dros y Penderfyniad:**

Sicrhau bod buddion yr awdurdod yn cael eu cynrychioli a'u bod yn unol â'i ddyletswyddau statudol amrywiol.

**Rhoi'r Penderfyniad ar Waith:**

Caiff y penderfyniad ei roi ar waith ar ôl y cyfnod galw i mewn o dridiau.

6. **ADRODDIAD CYNNYDD ANSAWDD AER 2019**

**Penderfyniadau:**

1) Nodi cynnwys Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2019 a'r Asesiad Manwl o Ansawdd Aer a chytuno arnynt.

2) Cyhoeddi Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2019 ar wefan y cyngor fel ei fod ar gael i'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill ac anfon copi at Lywodraeth er gwybodaeth.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Darparu gwybodaeth am ansawdd aer yn unol â gofynion deddfwriaethol.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

7. **ADRODDIAD ARCHWILIAD CYMRU - IECHYD YR AMGYLCHEDD**

**Penderfyniadau:**

1. Nodi canfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru o'r gwaith dilynol a wnaed sy'n seiliedig ar adroddiad: 'Cyflwyno gyda llai - Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd'.

2. Cymeradwyo'r cynllun gweithredu mewn ymateb i'r cynigion gwella a gyflwynwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

**Rhesymau dros y Penderfyniadau:**

Er mwyn anfon y cynllun gweithredu a gymeradwywyd ymlaen at Swyddfa Archwilio Cymru.

**Rhoi Penderfyniadau ar Waith:**

Caiff y penderfyniadau eu rhoi ar waith ar ôl y cyfnod tri diwrnod galw i mewn.

8. **BLAENRAGLEN WAITH 2018-19**

**Penderfyniad:**

Nodi'r Blaenraglen Waith ar gyfer 2019/20.

**CADEIRYDD**